# Atodiad 2

Mae'r tabl isod yn dangos yr holl gynlluniau yn y Cynllun Gweithredu Tai, a faint o'r Premiwm sydd wedi'i ddynodi fel ffynhonnell wariant yn wreiddiol a swm ychwanegol o Bremiwm a glustnodir nawr (os oes peth o gwbl). Yn ogystal, dangosir sawl uned newydd fydd yn cael eu gwireddu gyda phremiwm newydd neu gyda'r cyllid gwreiddiol. (Mae'r cynlluniau sydd yn derbyn premiwm newydd wedi'i hamlygu mewn print trwm). Noder mai un ffynhonnell ymhlith nifer yw'r Premiwm ac er pwrpas yr adroddiad hwn, ni ddangosir y ffynonellau ariannol eraill, megis y Cynllun Rheoli Asedau a grantiau amrywiol yn y tabl isod.

| Cynllun | Disgrifiad | Gwreiddiol | Premiwm Ychwanegol | Cyfanswm o'r Premiwm | Unedau ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| **1a** | **Cynlluniau tai â chefnogaeth i'r digartref** | **£500,000** | **£9,000,000** | **£9,500,000** | +45 |
| **1b** | **Llety â chefnogaeth i ieuenctid digartref** | **£285,000** | **£200,000** | **£485,000** | -1 |
| **1c** | **Unedau hunan-gynhaliol ar gyfer unigolion ag anghenion cymdeithasol dwys** | **£500,000** | **£300,000** | **£800,000** | 0 |
| **1ch** | Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat | £600,000 | *Dim newid* | *£600,000* | +40 |
| **1d** | Cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol | *Dim premiwm* | | | |
| **1dd** | **Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon** | **£300,000** | **£300,000** | **£600,000** | 0 |
| **2a** | Adeiladu mwy o dai cymdeithasol na'r hyn y gellir ei ariannu drwy'r grant tai cymdeithasol* | £1,200,000 | *Dim newid* | *£1,200,000* | +200 |
| **2b** | Ail ddatblygu safle Cartref Pwyliaid, Penrhos | *Dim premiwm* | | | |
| **2c a 3b** | **Prynu cyn-dai cymdeithasol a'u rhentu i drigolion Gwynedd // Prynu tai preifat** | **£0** | **£5,600,000** | **£10,000,000** | 0 |
| **3a a 4c** | **Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu // Ariannu'r diffyg ariannol yn achosion busnes tai arloesol** | **£5,000,000** | **£4,000,000** | **£7,000,000** | -10 |
| **3c** | Ymgynghori gyda chymunedau er mwyn sefydlu eu anghenion tai | £150,000 | *Dim newid* | *£150,000* | - |
| **3ch** | Gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn "dai Cyngor" | *Dim premiwm* | | | |
| 3d | Plotiau hunan adeiladu | £30,000 | *Dim newid* | £30,000 | 0 |
| **3dd** | **Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag** | **£4,000,000** | **£80,000** | **£4,080,000** | +32 |
| **3e** | Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf | £200,000 | *Dim newid* | *£200,000* | 0 |
| **3f** | Cynllun cymorth prynu | £3,000,000 | *Dim newid* | *£3,000,000* | +20 |
| **3ff** | Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol | £1,200,000 | *Dim newid* | *£1,200,000* | - |
| **3g** | Elfen trigiannol mewn cynlluniau adfywio cymunedol | £600,000 | *Dim newid* | *£600,000* | 0 |
| **3ng** | Cynnig cymorth i berchnogion sy'n dymuno gosod neu werthu eu tai i bobl leol | *Dim premiwm* | | | |
| **4a** | Sefydlu gwasanaeth Cadwraeth Ynni newydd i berchnogion tai er mwyn cyfrannu tuag at ein dyhead i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. | £500,000 | *Dim newid* | *£500,000* | - |
| **4b** | Cynllun peilot Tai Arloesol | £300,000 | *Dim newid* | *£300,000* | 0 |
| **5a** | Tai gyda chefnogaeth – ieuenctid | £500,000 | *Dim newid* | *£500,000* | 0 |
| **5b** | Tai gofal estynedig - henoed | £2,500,000 | *Dim newid* | *£2,500,000* | 0 |
| **5c** | Hwb Penygroes | *Dim premiwm* | | | |
| **5ch** | **Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anghenion dwys** | **£400,000** | **£100,000** | ***£500,000*** | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **5d** | Cartrefi addas i blant gyda anghenion corfforol dwys | £1,200,000 | *Dim newid* | *£1,200,000* | 0 |
| **5dd** | Frondeg, Caernarfon | £200,000 | *Dim newid* | *£200,000* | +3 |
| **5e** | Benthyciadau di log i wella cyflwr tai | £250,000 | *Dim newid* | *£250,000* | 0 |
| **5f** | Diogelwch yn y Cartref | *Dim premiwm* | | | |
| **5ff** | Addasiadau i wneud tai yn gartrefi addas i unigolion ag anableddau | *Dim premiwm* | | | |
| 6 | Siop un Stop | £480,000 | *Dim newid* | £480,000 | - |
| | | | **£19,508,000** | **£41,675,000** | **+329** |

*Noder bod y Grant Tai Cymdeithasol wedi codi i £55.5m (hyd at 2024/25) fydd yn galluogi i ni gyflawni oddeutu 200 yn fwy o unedau